*Llinyn: Technegau Disgyblaethol - Drama - (Sgiliau Perfformio) Llais, Symudiad/Ystum, Mynegiant Wyneb*

1

1

| Cam Cynnydd 1 | | |
|---|---|---|
| Gwybodaeth a Sgiliau | Geirfa | Profiadau a Nodweddion |
| Gwybod/deall:<br>• Mae perfformio mewn cymeriad yn digwydd ar lawer ffurf, gan gynnwys chwarae a chwarae rôl (nid yw wedi'i neilltuo i lwyfan yn unig).<br>• Gall gwahanol weithgareddau ein helpu ni i ddweud straeon a chreu cymeriadau.<br>• Mae deall sgiliau perfformio yn ein helpu i ddeall sefyllfaoedd bywyd go iawn, megis adnabod emosiwn a theimladau.<br><br>Defnyddio/gallu:<br>• Archwilio technegau dyfeisio syml. Dechrau archwilio cymeriadau, sefyllfaoedd a chydberthnasau cyfarwydd.<br>• Dechrau creu darnau byrion e.e. chwarae rôl, efelychu sefyllfaoedd go iawn a sefyllfaoedd ffuglennol. | • rhewi'r ffrâm (delweddau llonydd/rhewi'r llun).<br>• chwarae rôl.<br>• meim<br>• y gadair goch (pan ofynnir cwestiynau i'r disgyblion mewn cymeriad).<br><br>Llais<br>• cryf, tawel, lefel y sain<br><br>Symudiad:<br>• maint symudiad e.e. mawr/bach.<br>• osgo<br>• ffyrdd o gerdded<br>• cyflymdra/cyflymder<br>• aros/cychwyn<br>• cyfeiriad<br><br>Mynegiant Wyneb<br>• emosiwn e.e. hapus/trist/blin | Mae'n hanfodol bod amrywiaeth o weithgareddau yn cael eu defnyddio sy'n rhoi'r cyfle i ddysgwyr archwilio, ymateb, myfyrio a chreu; creu, perfformio, gwerthuso<br><br>Cymryd rhan mewn ystod o weithgareddau ymarferol sy'n annog 'chwarae dychmygus' a chwarae rôl. Chwarae rôl gydag eraill mewn sefyllfaoedd cyfarwydd, gan greu cymeriadau cyfarwydd o'u profiadau a'r gymuned.<br><br>Ystod o weithgareddau ymarferol i archwilio technegau dyfeisio syml a datblygu dealltwriaeth o gymeriadau, sefyllfaoedd a chydberthynas e.e. y gadair goch, golygfeydd rhewi'r ffrâm.<br><br>Edrych ar y gwahaniaeth rhwng syniadau, teimladau a naws mewn stori a'r rheiny mewn bywyd go iawn. |

| | | |
|---|---|---|
| • Dechrau defnyddio'r llais yn briodol ac mewn ffyrdd gwahanol, ac adnabod y gwahaniaethau.<br>• Dechrau archwilio symudiad neu ystum a'i ddefnyddio mewn ffyrdd gwahanol.<br>• Dechrau archwilio mynegiant wyneb a'i ddefnyddio mewn ffyrdd gwahanol. | | Perfformio gyda'r dosbarth mewn gwasanaeth boreol ac/neu i gynulleidfa. |

# Cam Cynnydd 2

2

| Gwybodaeth a Sgiliau | Geirfa | Profiadau a Nodweddion |
|---|---|---|
| Gwybod/deall:<br>• Mae perfformio mewn cymeriad yn digwydd ar lawer ffurf, ac yn cael ei greu am sawl rheswm e.e. yn broffesiynol, yn gymdeithasol ac ati.<br>• Gall gwahanol weithgareddau ein helpu ni i ddweud straeon a chreu cymeriadau fwy manwl, yn ogystal ag archwilio cymeriadau anghyfarwydd.<br>• Gall sgiliau perfformio amrywiol ein helpu i greu cymeriadau a'u cyfleu.<br>• Mae cyfathrebu ag eraill mewn gofod perfformio yn chwarae rôl mewn cyfleu ystyr i'r gynulleidfa. | Strategaethau dyfeisio<br>• meddyliau yn y pen<br>• tablos<br>• y gadair goch<br>• gwaith byrfyfyr<br>• chwarae rôl estynedig a thrafodol<br>• ffuglennol a hanesyddol<br>• hunaniaeth, y byd a'r gymuned ehangach<br><br>Sgiliau lleisiol<br>• goslef<br>• eglurder<br>• traw uchel/isel<br>• cyflymder/tempo | Mae'n hanfodol bod amrywiaeth o weithgareddau yn cael eu defnyddio sy'n rhoi'r cyfle i ddysgwyr archwilio, ymateb, myfyrio a chreu; creu, perfformio, gwerthuso<br><br>Cyfres o weithgareddau ymarferol i archwilio cerddi, dramâu, testunau, cael profiad o wahanol genres ysgrifennu o'r gymuned leol a'r gymuned ehangach.<br><br>Archwilio cymeriadau, digwyddiadau a materion cyfoes, amrywiaeth a diwylliannau; gwylio, neu archwilio, theatr sy'n gynrychioliad gwreiddiol o ddiwylliannau Cymru a'r tu hwnt.<br><br>Cymryd rhan mewn chwarae rôl estynedig. Ymarfer a pherfformio golygfeydd byrion. |

| | | |
|---|---|---|
| • Mae perthynas rhwng yr actor a'r gynulleidfa mewn perfformiad (yn unol â'r elfennau cyfatebol a addysgir).<br>• Mae deall sgiliau perfformio yn ein helpu i ddeall sefyllfaoedd bywyd go iawn megis adnabod emosiwn, teimladau, cydberthynas a sefyllfaoedd anghyfarwydd.<br><br>Defnyddio/gallu:<br>• Archwilio strategaethau dyfeisio fwy amrywiol i ddod yn ymwybodol o rôl a sefyllfa. Archwilio amrywiaeth ehangach o gymeriadau, sefyllfaoedd a chydberthnasau.<br>• Creu darnau byrion e.e. chwarae rôl, efelychu sefyllfaoedd go iawn a sefyllfaoedd ffuglennol yn dangos ystod ehangach o gymeriadau, gan ddechrau archwilio'r rheiny sy'n fwy anghyfarwydd iddynt.<br>• Dechrau defnyddio'r llais yn briodol ac mewn ffyrdd gwahanol ac adnabod y gwahaniaethau; archwilio'r cysylltiad rhwng hyn a chymeriad/rôl.<br>• Dechrau archwilio symudiad neu ystum a'i ddefnyddio mewn ffyrdd gwahanol, ac archwilio'r cysylltiad rhwng hyn a chymeriad/rôl. | Symudiad<br>• ystumiau<br>• lefelau<br>• safiad<br>• ymwybyddiaeth o eraill mewn gofod<br><br>Mynegiant Wyneb<br>• emosiynau amrywiol<br>• creu mynegiant e.e. aeliau, cyswllt llygad | Perfformio sioeau byrion yn y dosbarth, neu yn y gwasanaeth boreol, i'w cyfoedion.<br><br>Defnyddio ac archwilio theatr ddosbarth, blychau propiau dosbarth, theatrau pyped, gwisgoedd fwy cymhleth.<br><br>Mynd i'r theatr (ac/neu berfformiadau dros lif byw).<br><br>Cymryd rhan pan fydd storïwyr a grwpiau theatr yn ymweld â'r ysgol. |

- Dechrau archwilio mynegiant wyneb a'i ddefnyddio mewn ffyrdd gwahanol, ac archwilio'r cysylltiad rhwng hyn a chymeriad/rôl.

# Cam Cynnydd 3

## Gwybodaeth a Sgiliau

Gwybod/deall:

- Mae theatr/perfformio yn digwydd ar lawer ffurf ac mewn sawl arddull.
- Gellir creu perfformiadau i greu ac amrywio naws ac awyrgylch, a chael effaith ar y gynulleidfa.
- Mae datblygu gwell dealltwriaeth o sgiliau perfformio amrywiol yn ei gwneud yn llawer haws datblygu perfformiadau fwy argyhoeddedig a bodloni'n llwyddiannus amcanion yr arddulliau a ddewisir ac ati.

Defnyddio/gallu:

- Archwilio ac arbrofi gyda strategaethau dyfeisio fwy soffistigedig yn fwyfwy annibynnol, datblygu dealltwriaeth o gymeriadau, cymhellion a chydberthnasau.

## Geirfa

- gweithrediad
- rhyngweithio
- ymateb
- cynildeb

Technegau dyfeisio

- tablos
- animeiddiad/symudiad haniaethol
- coridor cydwybod
- adroddiad
- ymsonau
- statws

Sgiliau lleisiol

- cyflymder
- lefel y sain
- acen
- taflu'r llais

## Profiadau a Nodweddion

Mae'n hanfodol bod amrywiaeth o weithgareddau yn cael eu defnyddio sy'n rhoi'r cyfle i ddysgwyr archwilio, ymateb, myfyrio a chreu.

Archwilio arddulliau perfformio mewn ystod o wahanol genres/arddulliau e.e. sioeau cerdd, comedi, trasiedi.

Archwilio golygfeydd mewn cyd-destun (e.e. hanesyddol, pynciol, yn seiliedig ar destun).

Archwilio'r creu a'r defnydd o ddrama, yn seiliedig ar gyfleoedd dysgu ar draws y cwricwlwm.

Archwilio cymeriadau o gymuned ehangach, neu'r tu hwnt i wybodaeth gyfarwydd (anghyfarwydd).

| | | |
|---|---|---|
| • Cynnal y defnydd o'r llais, gan ystyried y cymeriad, y sefyllfa.<br>• Cynnal y defnydd o symudiad, gan ystyried y cymeriad, y sefyllfa.<br>• Cynnal y defnydd o fynegiant wyneb, gan ystyried y cymeriad, y sefyllfa.<br>• Perfformio gydag ymwybyddiaeth gynyddol o eraill mewn gofod perfformio, gan ystyried y berthynas rhwng cymeriadau, mathau o lwyfan (yn unol â'r elfennau Drama cyfatebol a addysgir). | Sgiliau corfforol<br>• dilyniannau o symudiadau<br>• pellter rhwng actorion<br>• lefelau | |

# Cam Cynnydd 4

| Gwybodaeth a Sgiliau | Geirfa | Profiadau a Nodweddion |
|---|---|---|
| Gwybod/deall:<br>• Mae arddulliau perfformio yn gofyn am ddefnyddio sgiliau perfformio mewn gwahanol ffyrdd i gael yr effaith a fwriedir ar gyfer y gynulleidfa.<br>• Mae perfformio yn gofyn am gywirdeb llais, symudiad ac ystum, rhyngweithio â pherfformwyr eraill lle bo'n briodol a chysylltu â'r gynulleidfa.<br>• Sut mae cyfarwyddiadau llwyfan yn arwain perfformiwr tuag at yr effaith a fwriedir. | • pellter rhwng actorion<br>• ymarferydd<br>• arddull perfformio e.e. realaeth, theatr gorfforol, melodrama<br><br>Symudiad/Perfformiad<br>• set, propiau, safle ar y llwyfan a gofod<br>• bwriad, effaith, yr effaith ar gyfer y gynulleidfa<br><br>• goleuo (LX) | Mae'n hanfodol bod amrywiaeth o weithgareddau yn cael eu defnyddio sy'n rhoi'r cyfle i ddysgwyr archwilio, ymateb, myfyrio a chreu.<br><br>Dylid perfformio repertoire eang o sgiliau perfformio gan ddangos manylder cynyddol. Dylai hyn gyd-fynd â dyfnder ac ehangder yr astudio yng nghyd-destun yr elfennau drama.<br><br>Perfformio fel rhan o grŵp a hwyluso'r cyfle ar gyfer perfformiad unigol/ymson. |

| | |
|---|---|
| • Rôl elfennau cynhyrchiad gwreiddiol mewn perfformio e.e. goleuo, sain, set, dylunaid set (defnyddio'r iaith briodol yn ôl y llinyn elfennau cyfatebol).<br><br>Defnyddio/gallu:<br>• Defnyddio strategaethau dyfeisio fwy soffistigedig yn fwyfwy annibynnol.<br>• Dangos dealltwriaeth o gymeriadau, cymhellion, statws a chydberthnasau o fewn cyd-destunau fwy amrywiol (wedi'u sgriptio, wedi'u dyfeisio ac ati).<br>• Cynnal y defnydd o'r llais gan ystyried y cymeriad, y sefyllfa a'r effaith a fwriedir ar gyfer y gynulleidfa.<br>• Cynnal y defnydd o symudiad gan ystyried y cymeriad, y sefyllfa a'r effaith a fwriedir ar gyfer y gynulleidfa.<br>• Cynnal y defnydd o fynegiant wyneb gan ystyried y cymeriad, y sefyllfa a'r effaith a fwriedir ar gyfer y gynulleidfa.<br>• Byrfyfyrio, ymarfer a pherfformio gan roi sylw i dechneg, yn cynnwys technegau i gyfleu nodweddion arddull.<br>• Perfformio gydag ymwybyddiaeth gynyddol o eraill mewn gofod perfformio (ymateb/rhyngweithio) gan ystyried y gydberthynas rhwng | • sain (SFX) |

| | | |
|---|---|---|
| cymeriadau a chyfleu'r effaith a fwriedir i'r gynulleidfa.<br>• Archwilio rôl elfennau crefft llwyfan i ategu perfformiad a'r nodau a fwriedir e.e. goleuo (LX), sain (SFX), set, propiau, dylunio llwyfan *(yn unol â'r elfennau Drama cyfatebol a addysgir)* | | |

# Cam Cynnydd 5

| Gwybodaeth a Sgiliau | Geirfa | Profiadau a Nodweddion |
|---|---|---|
| Gwybod/deall:<br>• Defnyddio gwybodaeth a dealltwriaeth e.e. elfennau dylunio llwyfan, sgiliau perfformio wrth berfformio.<br>• Mae arddulliau perfformio yn gofyn am ddefnyddio sgiliau perfformio mewn gwahanol ffyrdd i gael yr effaith a fwriedir ar gyfer y gynulleidfa.<br>• Mae perfformio yn gofyn am gywirdeb llais, symudiad ac ystum, rhyngweithio â pherfformwyr eraill lle bo'n briodol a chysylltu'n ystyrlon â'r gynulleidfa.<br>• Arddulliau perfformio fel cynrychioliad o amcanion a bwriadau ymarferwyr, cyd-destun hanesyddol a chymdeithasol ac ati, a sut gellir | Dylunio Llwyfan<br>• lefelau mewn perfformiad; llwyfannau, sylfaen llwyfan, dec dur, dylunio llwyfan<br>• math o lwyfan: bwa prosceniwm, theatr gylch, llwyfan traws neu lwyfan ymwthiol<br>• LX; sbotolau, LEDs, strôb, golau meddal, dec goleuadau<br>• SFX; seinyddion, bwrdd sain, effeithiau sain, haenu, llawn awyrgylch<br><br>Geirfa perfformio (ac arddull)<br>• theatr Brecht; theatr epig, *v-effekt*, ymbellhau, didactig ac ati. | Mae'n hanfodol bod amrywiaeth o weithgareddau yn cael eu defnyddio sy'n rhoi'r cyfle i ddysgwyr archwilio, ymateb, myfyrio a chreu.<br><br>Profiadau gwreiddiol yn yr ysgol a thu allan i'r ysgol yng nghyd-destun perfformiad byw ac/neu berfformiad/cynhyrchiad.<br><br>Dylid cael profiad o theatr amrywiol o wahanol gyfnodau, lleoedd a diwylliannau, ac sy'n cynrychioli amrywiaeth o hunaniaethau. |

| | | |
|---|---|---|
| addasu'r rhain ar gyfer bwriadau creadigol newydd a'u defnyddio mewn perfformiad.<br>• Elfennau technoleg a chrefft llwyfan i gefnogi perfformiad byw<br>• Perfformiadau byw yn y theatr<br><br>Defnyddio/gallu:<br>• Defnyddio strategaethau a chonfensiynau dyfeisio a pherfformio soffistigedig, yn cynnwys y rheiny sy'n perthyn i arddulliau perfformio penodol e.e. *The System*, a hynny'n annibynnol a chyda bwriad creadigol.<br>• Dangos dealltwriaeth effeithiol o gymeriadau, cymhellion, statws a chydberthnasau o fewn cyd-destunau fwy amrywiol (wedi'u sgriptio, wedi'u dyfeisio, realistig, afrealistig/haniaethol ac ati).<br>• Cynnal y defnydd o dechnegau llais cynnil ac amrywiol gan ystyried y cymeriad, y sefyllfa a'r effaith a fwriedir ar gyfer y gynulleidfa.<br><br>• Cynnal y defnydd o symudiad cynnil ac amrywiol gan ystyried y cymeriad, y sefyllfa a'r effaith a fwriedir ar gyfer y gynulleidfa. | • realaeth; Stanislavski, *The System*, unedau ac amcanion, cred, gwirionedd ac ati.<br>• theatr Artaud; confensiynau perfformio 'Y Theatr Greulondeb'.<br>• theatr realistig ac afrealistig<br>• gestus<br>• cyflymder, osgo, wyneb, tôn traed<br>• gweithrediad, rhyngweithio, adweithio<br>• cymhelliant: eisiau, meddwl, teimlo | |

- Cynnal y defnydd o fynegiant wyneb cynnil ac amrywiol gan ystyried y cymeriad, y sefyllfa a'r effaith a fwriedir ar gyfer y gynulleidfa.
- Byrfyfyrio, ymarfer a pherfformio gan roi sylw i dechneg, yn cynnwys technegau i gyfleu nodweddion arddull.
- Cyfrannu fel unigolyn i berfformiad theatrig a chydweithio i greu, datblygu a chyfleu syniadau.
- Datblygu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o rolau a phrosesau arferion theatrig proffesiynol cyfoes.
- Gweithredu arferion gweithio diogel.
- Perfformio gydag ymwybyddiaeth effeithiol o eraill mewn gofod perfformio a chydberthnasau arbennig, yn cynnwys y dewis o lwyfan (e.e. bwa prosceniwm, theatr gylch, llwyfan traws neu lwyfan ymwthiol) gan ystyried y gydberthynas rhwng cymeriadau a chyfleu'r effaith a fwriedir ar gyfer y gynulleidfa.
- Cyfoethogi ymhellach sgiliau technegol a mynegiannol fel perfformiwr.
- Archwilio rôl elfennau crefft llwyfan i ategu perfformiad a'r nodau a fwriedir e.e.  goleuo (LX), sain (SFX), set, propiau